
AM DDIM

Cyfnodolyn Synod Cymru Yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 237 Awst – Medi 2022

# Gwyliedydd



# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**



Ysgrifennaf hyn o eiriau yn Telford, Swydd Amwythig, yn ystod Cynhadledd Fethodistaidd 2022. Mae'n Gynhadledd hanesyddol, nid yn unig oherwydd mai dyma'r cyfarfod llawn cyntaf wyneb yn wyneb ers 2019, ond oherwydd heddiw, dydd Mercher 29 Mehefin, fe bleidleisiodd y Gynhadledd i ffurfio talaith (neu Synod) newydd ar gyfer yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru, yn dilyn cytundeb yng Nghymru. Ar ôl 31 Awst, un Synod ddwyieithog fydd gennym yn hytrach na Wales Synod (Saesneg) a Synod Cymru (Cymraeg). Mae'n gam ymlaen i'r dyfodol ac yn darparu cyd-destun a chartref i Gylchdaith Cymru fel cylchdaith Gymraeg ei hiaith, ochr yn ochr â 15 cylchdaith Saesneg eu hiaith. Mae hefyd yn cynnig cyfleoedd newydd ar gyfer addoliad a chenhadaeth trwy gyfrwng y Gymraeg trwy Gymru gyfan. I fi, mae'n gyffrous iawn, a diolchaf i Dduw am y bobl ffyddlon sydd wedi gweithio a gweddïo tuag at heddiw ar hyd y blynyddoedd.

Fel un o ddau Gadeirydd y Synod newydd, ynghyd â'r Parchg Ddr Stephen Wigley (cyn-Gadeirydd Wales Synod) yn ystod blwyddyn gyntaf ein bywyd gyda'n gilydd, rwyf wedi bod yn edrych yn ôl a meddwl am fy mhrofiad fel Cadeirydd Synod Cymru. Y peth cyntaf sy'n fy nharo yw, o 1 Medi ymlaen, mai Cadeirydd yn unig fydda i a hynny am y tro cyntaf ers i mi gychwyn yn y rôl yn 2013! Fydda i ddim yn aelod o staff Cylchdaith Cymru, nac yn Arolygydd (sef cyfrifoldeb y Parchg Ddr Ian Morris o hyn allan) ond yn Gadeirydd y Synod yn unig. Mae wedi bod yn fraint gwasanaethu fel Arolygydd, gyda gofal bugeiliol dros gapeli, er imi geisio sicrhau fy mod yn canolbwyntio ar fywyd y Synod. Wedi'r cwbl, dydy cylchdaith ddim yn gallu bodoli heb Synod (neu dalaith), a dydy capeli ddim yn gallu bodoli heb gylchdaith.

Yn ôl yn 2013, cefais yr argraff fod rhai yn meddwl nad oedd Synod Cymru yn gynaliadwy yn y tymor hir, felly tybiais mai fy nhasg i oedd darganfod a oedd hynny'n wir. Yr hyn a ddilynodd oedd blwyddyn o geisio dod i adnabod y Synod mor gyflym â phosibl a hynny trwy ganolbwyntio ar bum 'P' wnes i eu pwysleisio yn fy nghyfweliad ar gyfer y penodiad, sef Pobl, Prosesau, Problemau, Posibiliadau, Pader (h.y. gweddïo). Yna daeth arolygiad y Synod a'r Gylchdaith, ac ymdrech i ymateb i'r canlyniadau er mwyn datblygu ein bywyd o dan chwe thema genhadol. Er gwaethaf parodrwydd rhai i geisio symud ymlaen efo'r gwaith, doedd yr ymateb ddim yn ddigonol, ac fe awgrymodd Pwyllgor Gwaith y Gylchdaith a'r Synod fynd at Wales Synod i ofyn am sgyrsiau ynghylch y posibilrwydd o gydweithio. Cytunodd Pwyllgor Polisi Synod Cymru, a dechreuodd proses sydd wedi ein harwain ni at heddiw. Fel rhan o'r broses cawsom adolygiad o fywyd pob capel, gan geisio hybu cenhadaeth o dan bedair thema 'Ein Galwad' yr Eglwys Fethodistaidd (Addoli, Dysgu a Gofalu, Gwasanaethu ac Efengylu), yn ogystal ag adolygiad o adnoddau ariannol a gweinidogaethol y Synod a'r Gylchdaith.

Wedyn daeth y pandemig, na ellir anwybyddu ei effeithiau ar fywyd ein byd a'n cymdeithas gyfan, gan gynnwys yr eglwysi. Dechreuodd ein henwad broses o adolygu nifer y taleithiau trwy'r Cyfundeb, ond unwaith eto, fel sydd wedi digwydd droeon, gwelwyd bod Cymru ar flaen y gad gan ein bod eisoes yn symud tuag at greu un Synod (neu dalaith) newydd. O ystyried fod cynifer o bobl wedi dechrau dysgu Cymraeg yn ystod y pandemig, ac o gofio polisi'r Senedd i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'n ymddangos ei bod hi'n adeg addas iawn ar gyfer adnewyddu cenhadaeth yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru. Cytunodd y ddwy Synod ym mis Ebrill ein bod yn barod i uno; pleidleisiodd y Gynhadledd heddiw. Rydym wedi gosod y llwyfan ar gyfer dyfodol mwy cynaliadwy i Gylchdaith Cymru ac ar gyfer cyfleoedd newydd i genhadu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Y cwestiynau sydd gen i rŵan yw:

- Ydym ni'n barod i geisio cydweithio efo Duw ac efo'n gilydd er mwyn y Deyrnas?
- Ydym ni'n barod i gefnogi a hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn y Synod newydd, er lles i bawb?
- Ydym ni'n barod i dderbyn y cyfleoedd newydd a ddaw i ni i gydweithio'n ecwmenaidd yn sgil y Synod newydd? Ac ydym ni'n barod i ymddiried yn Nuw ar gyfer dyfodol na allwn ei weld ond sydd yn sicr yn nwylo'r Hollalluog?

Yn bersonol, rydw i wedi treulio gormod o fy ngweinidogaeth a'm bywyd yn gweithio dros genhadaeth yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru i fedru ateb "Nac ydw, dydw i ddim yn barod!" Rwyf yn gweddïo ac yn gobeithio y byddwn ni i gyd yn barod, ac i Dduw bo'r gogoniant.

## ACHLYSUR ARBENNIG YN LLANELWY



Llongyfarchwn Jennie ar gael ei hurddo yn Ganon Ecwmenaidd yng Nghadeirlan Llanelwy. Mae'r hanes i'w weld ar dudalen 11, yn adroddiad Salem, Pentre Helygain.



# Gwyliedydd


**CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD**
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 237**
**AWST – MEDI 2022**
Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru. 6 rhifyn drwy'r post £7.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**



**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk



**DYDDIAD CAU**
5 MEDI 2022

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Cylchdaith Cymru"

***SYLWER AR Y NEWID YN ENW'R CYFRIF, OS GWELWCH YN DDA**

Llun y clawr gan Arno Senoner yn Unsplash
Dyluniwyd gan Elgan Griffiths
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa




## Gwerthfawrogiad

Gwerthfawrogwn yn fawr y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r *Gwyliedydd*. Diolch o galon i Bwyllgor Dydd Gweddi'r Byd am eu haelioni tuag atom.

| | |
|---|---|
| Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd | £400-00 |
| Marion Thomas, Penmachno | £10-00 |
| Eglwys Gydenwadol Llangollen | £20-00 |
| Dienw | £50-00 |
| Capel Shiloh, Tregarth | £50-00 |
| Capel Ebeneser, Treuddyn | £20-00 |
| Dienw | £50-00 |
| CYFANSWM | £600-00 |



**Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd**

Bydd Jennie'n ymweld â'r mannau isod yn y ddau fis nesaf. Boed bendith Duw ar ei holl waith ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl.

| Awst | | Medi | |
|---|---|---|---|
| 7 | Gwyliau | 4 | Dyffryn Clwyd, Llanrhaeadr, Buckley & Deeside |
| 14 | Gwyliau | 11 | Bathafarn |
| 21 | Gwynedd a Môn | 18 | Ddim ar gael |
| 28 | Gŵyl Greenbelt | 25 | Llanrhaeadr |

## Gweithredu Dros Blant



Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at Gweithredu dros Blant, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y Gwyliedydd:

| | |
|---|---|
| Mrs Sheila Thomas (Grawys) | £50.00 |
| Ebeneser, Treuddyn | £20.00 |
| Myfanwy a Gareth Hughes | £30.00 |
| Shiloh, Tregarth | £50.00 |
| Margaret Morgan (am oedfa) | £30.00 |

Anfonwyd y swm o £180.00 ymlaen yn enw Synod Cymru.
O fis Medi ymlaen bydd y rhoddion yn mynd yn enw Cylchdaith Cymru.
Er gwybodaeth, yn dilyn saib oherwydd y cyfnod clo, byddwn yn ailafael yn yr ymgyrch i gasglu anrhegion Nadolig. Bydd mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.
Gyda diolch am bob cyfraniad ac am eich cefnogaeth.
**Marc a Margaret**
Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan

Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF
01978 756717 . cwrteden@gmail.com

# Gair o'r Gynhadledd

gan y **Parchedig Richard Gillion**



Cynhaliwyd y Gynhadledd Fethodistaidd eleni yn Telford, Swydd Amwythig – tref a enwyd ar ôl peiriannydd Pont y Borth dros Afon Menai a Thraphont Ddŵr Pontcysyllte. Roedd yn fraint i mi fod yn un o gynrychiolwyr Synod Cymru. Roedd yn bleser ac yn ysbrydoliaeth, er bod peth o'r busnes yn anodd aredig trwyddo ar adegau.

Ym mhob sesiwn o'r Gynhadledd mae addoliad a gweddi yn hollbwysig. Cafwyd negeseuon ysbrydoledig gan y Llywydd a'r Is-lywydd ymadawol, y Parchedig Sonia Hicks a Barbara Easton. Hefyd clywsom am y themâu y mae'r Llywydd a'r Is-lywydd newydd, y Parchedig Graham Thompson a Mr Anthony Boateng, am eu pwysleisio eleni. Siaradodd y Llywydd am garu Duw, ein cymdogion a ni ein hunain, tra bod yr Is-lywydd yn ein hannog i geisio gwaith adfywiol yr Ysbryd Glân ac adennill tân y Methodistiaid cynnar.

Eitem bwysig o fusnes oedd y cyfamod rhwng yr holl bobl Fethodistaidd a'u gweinidogion. Buom yn ystyried yr angen i wneud y gorau o ddoniau ein gilydd, i arfer arweinyddiaeth ar y cyd, gyda digon o ddysgu, hyfforddiant, arfogi, datblygu a darparu adnoddau ar gyfer gweinidogaethau ein gilydd. Gwnaethom ystyried yr angen am Gynhadledd fwy "tenau" i gynrychioli aelodaeth gyffredinol lai, heb golli amrywiaeth y gynrychiolaeth. Ystyriwyd ad-drefnu rhai o strwythurau'r enwad, gan gynnwys ffurfio talaith newydd Synod Cymru Wales – moment hanesyddol, gyda chefnogaeth pawb.

Braf oedd cael cymdeithas gyda hen ffrindiau a chydweithwyr a gwneud ffrindiau newydd ymhlith y cynrychiolwyr o bob rhan o Brydain, ei hynysoedd, Iwerddon ac o bedwar ban byd. Yn ein gwesty cawsom gwmni Samuel, Esgob Methodistaidd o Rwanda a Samuel, Esgob Methodistaidd o Singapore.

Roedd tystiolaeth o lawer o waith caled, cyn ac yn ystod y gynhadledd, ond roedd ymdeimlad cyffredinol bod Duw ar waith, pa mor heriol bynnag y gallai ein tasg fod o dan arweiniad ei Ysbryd. Rwyf am ddiolch i'r Synod am f'anfon ac am gymdeithas gyfan yr Eglwys sy'n rhannu'r gwaith y mae'r Gynhadledd hon yn ei gynrychioli gyda mi.

# CYMDEITHAS WALDO

Amcanion Cymdeithas Waldo yw:


i) Diogelu'r cof am waith a bywyd Waldo Williams, a ystyrir yn un o lenorion mwyaf dylanwadol Cymru ac yn fardd o statws rhyngwladol;

ii) Hyrwyddo cyfraniad Waldo Williams i lên a diwylliant Cymru trwy ddehongli a chreu ymwybyddiaeth ddyfnach o'i waith yn lleol ac yn genedlaethol.

**WALDOTHON**

Mae ar bob mudiad, elusen, clwb a chymdeithas angen arian i barhau â'r gwaith da maen nhw'n ei wneud, a dydy Cymdeithas Waldo ddim yn wahanol.

Oherwydd hynny, mae Cymdeithas Waldo'n trefnu 'Waldothon' gyda'r bwriad o godi arian drwy noddi darlleniadau o'i holl gerddi.



Mae 317 o gerddi Cymraeg a 27 o gerddi Saesneg yng nghyfrol Alan Llwyd a Robert Rhys, *Cerddi Waldo 1922–1970* (Gwasg Gomer, 2014) sy'n gwneud cyfanswm o 344 i gyd. Bydd ugain o bobol ar draws Cymru yn arweinyddion grwpiau i ddarllen tua 20 o gerddi Waldo ac mae gwahoddiad i bobl ledled y wlad noddi'r darlleniadau fesul £5 y gerdd.

Meddai'r Archdderwydd, Myrddin ap Dafydd:

'Mae boddhad i'w gael bob amser wrth droi at gerddi Waldo. Pleser ychwanegol yw eu darllen yn uchel, gan brofi'r rhythmau pwerus a sain esmwyth y geiriau. Ar ben hynny, bydd yr achlysur yn codi arian i gadw'r cof am y bardd yn agos at glust ei wlad. Bydd yn brofiad i'w werthfawrogi ar sawl cyfri!'

Ychwanegodd Emyr Llywelyn, un o lywyddion anrhydeddus Cymdeithas Waldo:

'Diolch i Mererid Hopwood ac Alun Ifans, Maenclochog, am drefnu 'Waldothon' noddedig gyda deunaw o bobl ledled Cymru yn darllen cerddi Waldo ar y 1af o Hydref. At bwy y trown pan mae'r 'byd yn chwâl' am ysbrydoliaeth? At bwy ond Waldo – â'i weledigaeth am frawdgarwch dyn, am heddwch a phwysigrwydd iaith a bro.'

Cynhelir y 'Waldothon' am 10 o'r gloch y bore, Sadwrn, Hydref y 1af, 2022. Mae hyn ddiwrnod ar ôl 'Diwrnod Waldo' sef Medi 30ain.

Am fwy o fanylion, cysylltwch ag Alun Ifans neu Mererid Hopwood

Alun Ifans: alunifans@hotmail.com

Mererid Hopwood: m.hopwood336@btinternet.com



# O'r Pen Yma



gan **Angharad Tomos**



Yn ddiweddar, cefais driniaeth i dynnu cataract o fy llygad, am fod fy ngolwg wedi dirywio. Ers rhai blynyddoedd, doeddwn i ddim yn gweld gystal ag y bûm, ond pobl eraill oedd wedi ceisio fy argyhoeddi fod fy ngolwg yn ddrwg. I mi, y sgrifen oedd yn rhy fach, fy mreichiau oedd ddim digon hir, neu pethau oedd yn rhy bell – roedd gen i esgus ar gyfer pob sefyllfa.

Mae'r driniaeth tu cefn i mi yn awr, ac yn raddol dwi'n dod i arfer efo fy llygad 'newydd'. Dim ond wrth gymharu fy llygad newydd efo'r hen un dwi'n sylweddoli cyn lleied roeddwn i yn ei weld mewn gwirionedd. Mae yn berffaith bosib yn awr i weld y cloc ar y silff ben tân o'r soffa, mae popeth yn llawer cliriach, a gallaf adnabod pobl sy'n codi llaw arnaf o'r ochr arall i'r stryd. Yn well byth, mae lliwiau yn llawer mwy byw – wyddwn i ddim eu bod yn gallu bod mor llachar. Dydw i ddim angen golau mawr fel goleudy i allu darllen cyfarwyddiadau syml. Mae'n weddnewidiad. Pam y bûm i mor gyndyn o gyfaddef nad oeddwn yn gweld?

Ydi o run fath tybed efo'n bywydau ysbrydol? Rydyn ni mor gyfforddus yn dweud ein bod yn deall cyfrinachau'r greadigaeth bron i gyd bellach, mai ofergoel yw'r hyn na allwn ei egluro yn resymegol oer. Onid tuedd yr oes yw datgan, 'does dim cyfrinachau bellach na wyddom amdanynt'. Pan fyddwn wedi perffeithio deallusrwydd artiffisial, yna byddwn wedi concro popeth.

Cael fy nenu yn ôl at y Llythyr Cyntaf at y Corinthiaid ydw i, diwedd y drydedd bennod ar ddeg.

'Canys gweled yr ydym yr awr hon trwy ddrych, mewn dameg; ond yna, wyneb yn wyneb: yn awr yr adwaen o ran; ond yna yr adnabyddaf megis y'm hadwaenir.'

Pan ddatgelir y cyfan inni yn y man, dwi'n siŵr mai yr un cwestiynau fyddaf yn eu gofyn – pam na chredais i ar y pryd fod fy ngolwg mor ddrwg? Pam yr holl esgusodion... Pam y bûm mor gyndyn i gredu?



Mae'n ddrwg iawn gennym glywed am farwolaeth Mrs Hafwen Roberts, ffrind i lawer ac un a fu'n hynod weithgar a chefnogol i'r *Gwyliedydd* yn ystod yr holl flynyddoedd y bu ei gŵr Gwyndaf yn olygydd ar y cylchgrawn hwn. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Gwyndaf a'r teulu oll.

# Marin Alsop: Arweinydd Ac Arloeswraig

gan **Gareth Blainey**

Bron i un flynedd ar bymtheg yn ôl yn rhifyn Hydref-Tachwedd 2006 y 'Gwyliedydd' ysgrifennais am yr Americanes Marin Alsop. Bryd hynny roedd Alsop yn paratoi ar gyfer swydd newydd fel arweinydd Cerddorfa Symffoni Baltimore. Hi oedd y ferch gyntaf i fod yn arweinydd parhaol un o brif gerddorfeydd yr Unol Daleithiau ac ers iddi greu hanes dwi wedi cadw llygad ar ei gyrfa lewyrchus. Erbyn hyn mae hi'n gyfarwyddwr cerdd Cerddorfa Symffoni Baltimore ac mae hi hefyd yn brif arweinydd Cerddorfa Symffoni Radio Fienna sy'n un o gerddorfeydd mwyaf blaenllaw Awstria.



Ychydig fisoedd yn ôl sylwais fod fideo o Alsop ar wefan yr orsaf radio 'Classic FM' ac ar y fideo yma mae hi'n siarad am ddeg o bethau sydd yn ei hymennydd wrth iddi arwain cerddorfa yn perfformio symffoni mewn cyngerdd. Y peth cyntaf yw'r 'tempo', sef cyflymder y gerddoriaeth a'r ail beth yw ansawdd y sain. Yn drydydd, mae hi'n ymwybodol iawn o bwysigrwydd y cysylltiad rhyngddi hi ac aelodau'r gerddorfa er mwyn sicrhau ei bod hi a nhw fel uned ac mae cydsymud yn hanfodol ar gyfer y pedwerydd peth – anadlu gyda'i gilydd wrth berfformio. Mae'r tri pheth nesaf ar ei meddwl ar ôl iddi astudio'r symffoni ymlaen llaw, sef nodweddion y gwaith, sut mae'r darn yn datblygu a'r stori y tu ôl i'r gerddoriaeth. Yr wythfed peth i'w gofio yn ôl Alsop yw bod angen iddi gyfleu neges i'r nawfed peth – y gynulleidfa – ac er mwyn gwneud hynny rhaid ffocysu ar gryfderau'r gerddorfa, sef y degfed peth.

Dyna ichi waith meddwl! A dyna pam fod Alsop mor uchel ei pharch ym myd cerddoriaeth glasurol. Teitl yr erthygl luniais i amdani yn 2006 oedd 'Arwain Y Ffordd' ac mae hi wedi arloesi drwy 'arwain y ffordd' i ferched eraill fod yn arweinyddion cerddorfeydd. Un o'r merched hynny a merch sydd wedi dweud ei bod hi'n edmygu Alsop yn fawr yw Dalia Stasevska o'r Ffindir. Stasevska oedd yr ail ferch i arwain noson olaf cyngherddau blynyddol y 'Proms' yn Llundain ddwy flynedd yn ôl, ar ôl i Alsop wneud hynny yn 2013 a 2015. Merch arall sydd wedi'i dylanwadu'n drwm ganddi yw'r Ffrances a'i ffrind agos Nathalie Stutzmann. Stutzmann yw'r ail ferch i fod yn arweinydd parhaol un o brif gerddorfeydd Yr Unol Daleithiau – Cerddorfa Symffoni Atlanta – gan ddilyn ôl troed Alsop.

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### *Ebeneser, Treuddyn*

**ER COF ANNWYL**
Rydym fel Eglwys yn cydymdeimlo'n ddwys iawn â Mrs Glenys Davies, Eira, Rhian a Terrig a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Fergus, gŵr, tad a thaid a oedd mor annwyl ganddynt. Cynhaliwyd gwasanaeth angladdol Fergus yng nghapel Ebeneser o dan ofal y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans, gyda Mrs Margaret Roberts wrth yr organ.

**GWASANAETHAU**
Erbyn hyn rydym yn cynnal o leiaf tair oedfa'r mis. Diolchwn i Mrs Siân Williams, Mrs Maryl Rees a Mrs Elizabeth Jones am ddod atom yn ystod y misoedd diwethaf.

Cynhelir ein Cyfarfod Pregethu am 6 yr hwyr ar ddydd Sul, Medi 18fed pan fydd y Parchedig Marc Morgan yng ngofal y gwasanaeth. Ar Hydref 9fed am 6 yr hwyr byddwn yn croesawu'r Parchedig Ganon Ddr Jennie Hurd atom i gynnal ein gwasanaeth Diolchgarwch. Estynnir croeso cynnes i bawb ymuno â ni yn y gwasanaethau hyn.

**GWELLHAD BUAN**
Anfonwn ein dymuniadau gorau am lwyr iachâd i'n gweinidog y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Maelor, Wrecsam yn ddiweddar. Edrychwn ymlaen at ei gweld pan fydd yn cymryd yr awenau unwaith eto yn ystod tymor yr Hydref. Cofiwn hefyd am bawb arall sy'n methu â mynychu'r capel ar hyn o bryd a dymunwn wellhad buan i chwi i gyd.

**GOHEBYDDION .** MALDWYN ROBERTS A GLENYS DAVIES

### *Eglwys Gydenwadol Seion, Llangollen*

**DIOLCH**
Mae Mrs Olwen Williams yn awyddus i ddiolch o galon i bawb am yr holl alwadau ffôn a'r cardiau a dderbyniodd yn ystod ei chyfnod hir yn yr ysbyty.
**GOHEBYDD .** ELIZABETH BENJAMIN

### *Pendref, Dinbych*

**OEDFAON**
Yn ystod Mai a Mehefin cawsom oedfaon bendithiol dan ofal Royce Warner, Celfyn Williams, y Parchg Ddr Jennie Hurd, y Parchg Marc Morgan ac Enid Davies. Cawsom hefyd oedfa dan ofal Gwyn Williams a Medwyn Jones. Blaenor mis Mai oedd Medwyn Jones gyda mis Mehefin dan ofal Sheila Thomas. Vera Savage a Beti Roberts oedd yn cyfeilio, gyda Gwyn Williams yn arwain y canu. Diolchwn iddynt am eu gwasanaeth. Anfonwn ein dymuniadau gorau i'r aelodau sydd ar hyn o bryd yn methu â mynychu'r oedfaon.

**CYMORTH CRISTNOGOL**
Dydd Sul Mai 8fed cynhaliwyd oedfa undebol Cymorth Cristnogol Dinbych. Arweiniwyd y cyfarfod gan Cheryl Williams, Capel Mawr, a chymerwyd rhan gan gynrychiolwyr Capel Lôn Swan, Eglwys Unedig y Fron a'r Brwcws ac Elfed Evans a Medwyn Jones ar ran capel Pendref.

**CANU MAWL**
Er inni orfod gohirio Cymanfa Ardal Dyffryn Clwyd oherwydd ansicrwydd Covid, cafwyd oedfa fendithiol o ganu mawl dan ofal Bethan Roberts, gydag aelodau yn dewis eu hoff emynau. Cymerwyd rhan gan Bethan ynghyd â Marjorie Williams, Heulwen Ellis, Gwyn Williams, Elfed Evans a Medwyn Jones.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Barchedig Glyn Thomas, a wasanaethodd yn ffyddlon ym mhulpud Pendref a Peniel Llanelwy am flynyddoedd lawer. Cydymdeimlwn yn ddwys hefyd â theulu Mr Terry Evans, un o hogiau Dinbych, a fu'n ein cynorthwyo i drwsio a chynnal a chadw'r adeilad yma ym Mhendref am nifer o flynyddoedd.

**DATHLU TYSTIOLAETH**
Cynhaliwyd oedfa arbennig i ddiolch a dathlu tystiolaeth Synod Cymru yma ym Mhendref ar 9 Gorffennaf. Rydym yn falch y dewiswyd Pendref i gynnal yr oedfa hon gan mai yma y cynhaliwyd y Cyfarfod Taleithiol cyntaf ar Fai 24ain 1804 a'r ail yn 1805, y ddau dan lywyddiaeth gweinidog Pendref, y Parchedig Owen Davies. Ym Mhendref hefyd y cynhaliwyd Cyfarfod Taleithiol 1828, yr olaf cyn rhannu Cymru yn ddwy Dalaith.
**GOHEBYDD .** MARY JONES

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**
Bu diwedd Mai a dechrau Mehefin yn brysur yma yn nhref Dinbych gyda dyfodiad Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i'r dref.



Er tywydd cyfnewidiol bu'r eisteddfod ar ei newydd wedd yn hynod o lwyddiannus. Diolch i Hywel Evans am y lluniau hyn o Mary Jones gyda chyd-aelodau o Ferched y Wawr yn paratoi paned ar y stondin honno, ac o dair cenhedlaeth o deulu'r 'Ffowndri' yn mwynhau'r eisteddfod.

Ar ddydd Sul Mai 29ain cawsom gyfle i ymuno ag eglwysi eraill y dref ar gyfer oedfa Eisteddfod yr Urdd yn y Capel Mawr. Y thema oedd Neges Heddwch ac Ewyllys Da – Lleisiau'r Ifanc. Cafwyd gwasanaeth bendithiol iawn dan ofal ieuenctid Dyffryn Clwyd gyda chyfraniadau cerddorol gan barti o Ysgol Glan Clwyd, Aelwyd Dyffryn Clwyd a Chôr Cytgan Clwyd.



### *Pisgah, Rhiwlas*



**LLONGYFARCHIADAU**
Derbyniodd Gareth Williams dystysgrif a medal am wirfoddoli am 15 mlynedd yn Ysbyty Gwynedd. Da iawn ti, Gareth. Mae Gareth yn aelod ffyddlon yng nghapel Pisgah a bob amser yn barod i helpu'r aelodau gydag unrhyw dasg.
**GOHEBYDD .** EINIR WILLIAMS

### *Salem, Rhyd y Foel*

**CYD-DDIGWYDDIAD**
Ar yr 8fed o Fai, thema ein pregethwr Dennis Davies oedd "Drysau". Mae Dennis a'i briod yn hoff o ymweld ag eglwysi yn y wlad hon a thramor a gwnaeth y sylw fod llawer o ddrysau eglwysi ar gau y dyddiau hyn. Wedi'r oedfa roedd y drysau yn dal ar agor pan drodd tri o ymwelwyr i mewn i gael golwg ar y capel. Roeddent wedi dotio at yr adeilad. Pobl o Zimbabwe oeddent ac ar eu gwyliau yn yr ardal – ond wedi cymryd y tro anghywir a dyna sut y bu iddynt gyrraedd pentref Rhyd y Foel a'n capel ni! Cyd-ddigwyddiad hapus iawn fod y drws ar agor.

**PROFEDIGAETH**
Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth un o'n haelodau ffyddlon, Eryl Morris Roberts, yn 81 oed. Priod annwyl Bob, mam gariadus Eifion a Lisa, Elwyn a Julie, Arwel, Siôn a Nicky a Huw a Suzanne a nain falch Ffion, Elis, Elena a Nia. Bu Eryl yn hynod o weithgar yn Salem am flynyddoedd – yn organydd ac yng ngofal y blodau a'r gymdeithas hyd nes i afiechyd ei llethu 11 mlynedd yn ôl. Er i'w hiechyd ddirywio bu'n wrol iawn ac roedd ei theulu a'i chyfeillion yn gefn mawr iddi. Cynhaliwyd yr angladd ddydd Llun Gorffennaf 4ydd yn Salem dan ofal y Parchedig Ddr Jennie Hurd. Cydymdeimlwn â Bob a'r teulu oll yn eu colled a'u trallod o golli un oedd mor annwyl.

**COFION**
Anfonwn ein dymuniadau gorau at Menna McBreeze a dderbyniodd driniaeth yn Ysbyty Maelor, Wrecsam yn ddiweddar.

**YSGOL SUL**
Bu dydd Sul Mehefin 12fed yn garreg filltir galonogol iawn yn hanes Salem pryd yr ail



gychwynnwyd yr Ysgol Sul wedi rhai blynyddoedd. Ar hyn o bryd mae ar yr ail Sul yn y mis. Anna sydd wedi bod yn bennaf gyfrifol ac mae hi a'i phlant Mari a Cadi yn ffyddlon iawn. Roedd ei thad y diweddar Tudur Wyn Jones a'i mam Mona yn gefnogol iawn bob amser. Fe ymunodd Gwil a Mali gyda Mari a Cadi a chawsant amser dymunol iawn yn sôn am Adda ac Efa ac yn tynnu lluniau pwrpasol. Diolch i Anna am ei brwdfrydedd a'i pharodrwydd i ddefnyddio ei sgiliau dysgu. Hyderwn y bydd yr Ysgol Sul yn mynd o nerth i nerth.
**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE

### *Preswylfa, Cyffordd Llandudno*

**PRIODAS**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Jonathan Bond ac Andrew Roberts ar achlysur eu priodas yng Ngwesty San Siôr, Llandudno yn ddiweddar.

**COFION**
Dymunwn yn dda i Iris Jones a fu yn Ysbyty Glan Clwyd ar ôl syrthio gartref ond sydd yn cryfhau o dipyn i beth. Cofion hefyd at Eirwen Jones sydd mewn oedran teg ond yn dal yn siriol iawn.
**GOHEBYDD .** EIRIAN JONES

### *Salem, Pentre Helygain*

**MYND I LANELWY**
Yn ôl y Plan, roedd oedfa i'w chynnal yn Salem ar 15 Mai o dan ofal y Parchg Ddr Jennie Hurd, ond fe newidiodd y cynllun. Y rheswm am hynny oedd fod Jennie wedi derbyn anrhydedd arbennig sef cael ei gwneud yn Ganon Ecwmenaidd yng Nghadeirlan Llanelwy a hwn oedd prynhawn ei hurddo. Felly yn hytrach na chynnal oedfa ym Mhentre Helygain aeth y criw o ffyddloniaid ynghyd â Margaret a Marc draw i Lanelwy. Bendithiol iawn oedd cael bod yn rhan o'r oedfa arbennig hon pan urddwyd canoniaid newydd ac mae'n llawenydd arbennig i ni fod Jennie yn eu plith fel cydnabyddiaeth o gyfraniad yr Eglwys Fethodistaidd i fywyd ecwmenaidd Gogledd-ddwyrain Cymru dros y blynyddoedd.
**GOHEBYDD .** MARGARET MORGAN

### *Ebeneser, Dolgellau*

**PRIODAS**
Priodwyd Pat Owen ac Albert King yn Swyddfa Gofrestru Penarlag, Dolgellau ar 8 Mehefin ac yna, yn dilyn yr Oedfa fore Sul 12 Mehefin yn Ebeneser, o dan arweiniad y Parchedig Patricia Grudgings, cawsom wasanaeth i fendithio'r briodas. Hyfryd oedd croesawu ffrindiau ac aelodau o deuluoedd y ddau i'n plith ar achlysur mor arbennig. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau iddynt a phob bendith ar y ddau.

**GARDD Y CAPEL**
Mae gardd y capel yn edrych yn hyfryd eto eleni. Diolch i'r tîm, sef Hugh, Alison, Dai a Gwyn am eu holl waith yn gofalu amdani. Rydym fel aelodau, yn ogystal â'r cyhoedd, yn cael pleser mawr o'u llafur wrth gerdded heibio.

**PEN-BLWYDD ARBENNIG**
Llongyfarchiadau i Ruth Nichols ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ym mis Mehefin. Mae Ruth yn un o organyddion Ebeneser, ynghyd â Pat Owen. Dymunwn yn dda iddi ar gyrraedd y garreg filltir hon.

**GOHEBYDD .** BERYL NORGROVE

# OEDFA ARBENNIG AR DDIWEDD CYFNOD





Cynhaliwyd Oedfa arbennig i ddiolch am waith Synod Cymru a'r taleithiau Cymraeg a'i rhagflaenodd, a dathlu eu tystiolaeth, yng nghapel Pendref, Dinbych ar ddydd Sadwrn 9fed o Orffennaf. Roedd hi'n bnawn hafaidd a braf ac wrth inni ddod allan o'r capel roedd clychau Eglwys gyfagos y Santes Fair i'w clywed yn canu.

Cafwyd gwasanaeth hynod o hyfryd dan arweiniad y Parchedig Ddr Jennie Hurd. Agorwyd y gwasanaeth gyda Jennie yn golau cannwyll a ddaeth o'r Gynhadledd Fethodistaidd ac a wnaed gan y Parchedig Graham Thompson, Llywydd newydd y Gynhadledd.





Cymerwyd rhan gan y Parchedig Ddr Ian Morris, Mrs Maryl Rees a'r Chwaer Eluned Williams. Cafwyd pregeth amserol iawn gan y Parchedig Ganon Aled Edwards, Prif Weithredwr Cytûn Cymru. Braf oedd clywed yr organ fawr a'r gynulleidfa yn morio canu'r emynau. Diolch i Geraint Roberts am gyfeilio ac i gyfeillion Pendref am eu croeso a'r paratoadau. Amserol iawn oedd cynnal yr oedfa ym Mhendref o ystyried cysylltiadau'r Eglwys gyda'r cyfarfodydd taleithiol cyntaf yn nyddiau cynnar ac anodd Wesleaeth Gymreig.







Yn dilyn yr oedfa cafwyd lluniaeth ysgafn blasus yng nghanolfan gymunedol Eirianfa, drws nesaf i'r capel a braf oedd cael cyfle i gymdeithasu gyda chyfeillion hen a newydd. Diolch i Ffion Howatson o gaffi Ji-Binc Dinbych am yr arlwyo.
**Medwyn Jones**



# Wrth fynd heibio

gan **William H. Owen**

Amser a ddengys yw'r dywediad wrth inni hanner obeithio y bydd pethau'n gwella arnom. Mae dwy flynedd dan glo wedi dangos ei ôl yn gyffredinol er i'r byd ddechrau stwyrian i fod yn debycach i'r hyn yr oedd cyn Mawrth 2020. Efallai ei bod yn gamarweiniol iawn dweud hynny wrth gofio fod y Diafol o'r Dwyrain wedi ansefydlogi cymaint arnom. Ond yn ein byd bach ni o fewn ffiniau'r ynys hon, o leiaf mae pobl wedi bod yn fodlon i heidio yn eu miloedd i gynulliadau torfol, boed rheiny yn Ninbych, stadiymau Caerdydd neu Glastonbury.

Y digwyddiad yng nghalendr rhai ohonom a all ddenu'r miloedd yr haf hwn yw'r Eisteddfod Genedlaethol ar dir gwastad Tregaron. Amser a ddengys. Yn wahanol i Eisteddfod yr Urdd mae'n rhaid talu i fynd i'r Genedlaethol hon. A fydd yr argyfwng costau byw y clywn am ei boenau'n ddyddiol yn ystyriaeth wrth feddwl troi am y meca Cymreig?

Heb ystyried y gost ariannol hon gwyddom beth sydd wedi dioddef yn ein cymunedau cyn sôn am y cynnydd enfawr yn ein hangenrheidiau byw. Ar lefel gymdeithasol, yn sgil y cloi mawr, bu ergyd i'r niferoedd sy'n mynd i'r capel. Rhyw wgu dan aeliau gawn ni mewn ymateb i'r cwestiwn 'Sut mae hi arnoch chi acw?' Ddim yn dda yw'r cyfaddefiad yn amlach na pheidio. Ac awgrym fod y pandemig wedi'n llorio.

Wn i ddim a yw hynny'n cael ei adlewyrchu yn nifer y capeli sydd ar werth yn ddiweddar. Buaswn yn taeru fod mwy ohonynt ar y farchnad nag erioed, hyd yn oed hysbyseb 'ar werth' yn y wasg yn gosod tri uwch ben ei gilydd mewn un rhan o'r gogledd. Hefyd Newyddion y BBC ar deledu ac ar-lein yn adrodd am gyfarfod yn Edern, Llŷn i sôn am gau capel 'hanesyddol' yno a'i droi o bosibl yn ganolfan i'r pentref. Ymunodd yr Aelod Seneddol lleol yn y drafodaeth. Clywais wedyn nad oedd neb wedi bod yn cyfarfod yn y capel ers tro am ei fod yn anniogel ac mai i ganolfan yn y pentref yr oedd yr addolwyr yn mynd beth bynnag. Yn rhyfedd iawn fu fawr o sôn am ganlyniad y cyfarfod ar Newyddion y BBC nac ar-lein, os nad y fi fu'n hepian.

A fydd rhywfaint o drafod ar sefyllfa affwysol ein mannau addoli yn codi ei ben yn yr Eisteddfod Genedlaethol? A ddaw rhywun yno i roi arweiniad? I roi tân ym moliau'r di-hid? I godi brwdfrydedd ynglŷn â mynychu capel ac eglwys eto?

Yn Nhregaron mae'r Sul yn dechrau'n well nag oedd yn Llanrwst dair blynedd yn ôl. Mae'r Oedfa yn ei hôl yn y Pafiliwn. Chwi gofiwch iddi gael yr hwi i gapel Seion, Llanrwst yn 2019 i wneud lle i'r cystadlu ar y llwyfan. Ofnid fod hyn am ddechrau arferiad newydd ond mae'n amlwg i awel ddod o Soar y Mynydd i gyfarwyddo'r Sanhedrin eisteddfodol fel arall. Mae'n dechrau am 9.00 y bore. Amser a ddengys a oes digon o grefyddwyr brwd ar ôl yn y Gymru hon i lenwi'r Pafiliwn ar awr mor gynnar.



# Cymanfa Ganu Gydenwadol Swydd Efrog



Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Swydd Efrog ar 14eg o Fai eleni ar ôl bwlch o ddwy flynedd oherwydd Covid-19. Mae'r Gymanfa'n mynd o amgylch yn y Sir gan gwrdd mewn gwahanol gapeli ac eglwysi o flwyddyn i flwyddyn. Eglwys y Plwyf Shipley oedd y lleoliad y tro yma.

Fel swyddogion pob gweithgaredd cymdeithasol roedd y Pwyllgor yn ansicr faint fyddai'n dod ynghyd gan fod y rhan fwyaf o'r gynulleidfa yn teithio o bell. Yn y diwedd ymgasglodd hanner cant o gantorion brwdfrydig ac ymhyfrydodd pawb o glywed pedwar llais mewn harmoni.

Fi oedd yr arweinydd y tro yma gyda Carey Williams o'r Bala yn organydd. Yn anffodus cymerwyd Carey yn wael y diwrnod cynt ond daeth Catherine Barnett ymlaen i achub y dydd.

Ar ddiwedd y pnawn roedd llond bocs o de Swydd Efrog, pedwar peint o lefrith a bocseidiau di-ri o fisgedi wedi diflannu! Mwynhaodd pawb yr achlysur.
**Philip Barnett**

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

## Ardal Bathafarn

**OEDFAON**
Yn ystod Mehefin a Gorffennaf bu John Griffiths ac Elizabeth yn cynnal oedfaon, gydag Elizabeth yn gweinyddu'r Cymun ym Mathafarn a Glyndyfrdwy. Y llywyddion oedd Rhodri ac Elved. Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i'r Parchedig Dilys Jones, na fu modd iddi fod gyda ni, a'n cofion anwylaf hefyd at yr aelodau na all fod yn yr oedfaon oherwydd gwaeledd.

**PROFEDIGAETH**
Yn ystod mis Mehefin bu farw Gladwen Jones, Gwyddelwern, un a fu'n hynod ffyddlon a gweithgar fel aelod a swyddog yng nghapel Gwyddelwern ac Ardal Bathafarn. Roedd gennym i gyd feddwl y byd ohoni – cymeriad hoffus a diffuant. Treuliodd Gladwen ei phlentyndod yn ardal Rhydymeudwy, Llanelidan a bu'n ffyddlon i Ysgol Sul capel Wesleaidd Llanelidan. Cynhaliwyd ei hangladd yng nghapel Bathafarn dan arweiniad Elizabeth, Elwyn Ashford Jones a'r Parchedig Brian Huw Jones, Prestatyn, gyda Rhian yn cyfeilio, ac fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent Gwyddelwern. Cafwyd teyrnged deimladwy gan Ifor, mab Gladwen. Meddyliwn yn dyner iawn am ei phriod, Glyn, sy'n derbyn gofal yn Llangollen a chydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu oll.

Cydymdeimlwn yn ogystal â theulu'r diweddar Barchedig Glyn Thomas, Abergele, a fu'n pregethu ym Mathafarn yn gyson am flynyddoedd, a hefyd ag Audrey Jones o golli cefnder sef Wyn Pierce o Gaerlŷr, mab i'r diweddar Vida a John Pierce, Rhuthun ac aelod o deulu o Wesleaid selog.

**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES

## Saron, Bethel, Arfon

**COLLI BERYL**
Colled fawr i ni fel Eglwys oedd marwolaeth ein haelod hynaf sef Mrs Beryl Parry, annwyl briod y diweddar Dafydd Parry a mam arbennig Delyth a Carys, hefyd modryb, nain a hen nain garedig iawn. Bu'n wael ei hiechyd ers misoedd lawer fel na allai fynychu'r capel yn ddiweddar i fwynhau yr oedfaon oedd mor agos at ei chalon. Roedd gan Beryl feddwl uchel iawn o gapel Saron lle bu'n aelod ffyddlon ar hyd ei hoes. Cydymdeimlwn yn fawr â'r teulu i gyd yn eu profedigaeth. Mae sedd Beryl yn y capel yn wag iawn ond mae'r gwacter sydd i'w deimlo o fewn ei theulu annwyl yn llawer mwy.

Wrth inni fynd i'r Wasg daeth y neges drist fod Mr Dafydd Williams, aelod ffyddlon arall o'r Eglwys hon, wedi marw yn Ysbyty Gwynedd. Mae ein cydymdeimlad yn fawr iawn gyda'i deulu yntau. Dyma'r trydydd aelod ffyddlon ac annwyl i ni ei golli yn ystod y flwyddyn hon. Cawn air pellach i gofio Dafydd yn ein rhifyn nesaf.

**GOHEBYDD .** RJ

## Shiloh, Tregarth

**ADDOLI YN SHILOH**
Rydym yn ffodus iawn i gael gwasanaethau bob Sul yn Shiloh a diolchwn yn fawr i bawb sydd yn arwain oedfaon a'u mynychu. Yn ystod yr wythnosau diwethaf pregethwyd gan Richard Gillion, Eric Jones, Gwyndaf Jones, Idris Thomas, R.O.Jones, Ellie Jones, Philip Barnett a Nerys Ann Griffiths. Diolch i chi i gyd.

**FFARWELIO**
Ar 19 Gorffennaf cynhaliwyd cyfarfod i ffarwelio â'r Parchedig Richard Gillion a'i briod Lesley. Bu Richard yn weinidog yn Ardal Môn ac Arfon – Gwynedd a Môn, bellach – am bum mlynedd. Dymunwn yn dda iddo yn ei gylchdaith newydd yn ardal Porthcawl, gan ddiolch iddo am ei waith yma.

**LLWYDDIANT**
Llongyfarchiadau i Gwenno Roberts ar gipio'r drydedd wobr yng nghystadleuaeth cyfeilio gyda'r delyn o dan 19 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni. Rydym yma yn Shiloh wedi arfer clywed Gwenno yn cymryd rhan yn ardderchog gyda'r delyn yn y Gwasanaethau Teulu ac yn falch dros ben o'i llwyddiant.

**CYDYMDEIMLO**
Trist yw cofnodi marwolaeth un o'n haelodau sef y ddiweddar Helen Jones ar Fehefin 4ydd. Bu teulu Helen yn gysylltiedig â Shiloh am flynyddoedd lawer ac anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad at ei phriod Rheinallt, y plant Brian a Gwenda a'r teulu oll.

**GOHEBYDD .** GWENDA DAVIES

**DRWS AGORED**
Cofiwch am y Drws Agored bob bore Gwener, rhwng 10 o'r gloch a hanner dydd. Croeso cynnes am sgwrs, cwmni a phaned hefo ffrindiau.






**DATHLU**
Llongyfarchiadau i'n trysorydd gweithgar sef Eirwen a'i phriod Wynn, sydd yr un mor weithgar fel ein horganydd, ar ddathlu 65 mlynedd o fywyd priodasol ar 20 Gorffennaf. Mae gwaith y ddau ohonynt yn Shiloh yn ddifesur a diolchwn o waelod calon iddynt am eu cefnogaeth, eu cwmni a'u hymroddiad i'r gwaith gan fawr obeithio y bydd y ddau yn cadw'n iach a llawn hwyl am flynyddoedd i ddod. Diolch, Eirwen a Wynn. Llongyfarchiadau hefyd i Nia a Kevin, eu merch a'u mab yng nghyfraith, ar ddathlu 25 mlynedd o fywyd priodasol ym Mehefin.



## Bethel, Prestatyn

**SUL Y TADAU**
Mwynhawyd Oedfa Deulu o dan ofal y Dr Prydwen Elfed Owens. Diolch iddi am baratoi oedfa fendithiol, lawn bwrlwm. Gwahoddwyd y tadau ifanc i fod yn 'flaenoriaid newydd' am y diwrnod ac roedd yn hyfryd eu gweld i gyd yn eistedd yn y Sêt Fawr. Diolch iddynt hefyd am gymryd rhan yn yr Oedfa ac i'r plant am eu cyfraniad gyda'r Band Taro yn gyfeiliant ychwanegol i'r emynau.

**Y BAND TARO**
Er mwyn rhoi rhan lawnach i'r plant yn yr oedfaon, ceisiwn ddechrau pob oedfa gydag emyn plant ac nawr mae'r 'Band Taro' yn cyfeilio. Diolch i'r plant am wneud yr offerynnau yn yr Ysgol Sul.







**OEDFA DEULU**
Thema ein hoedfa deulu ym mis Mehefin oedd 'Rhoi'. Gwrandawodd y plant yn dda ar stori Porthi'r Pum Mil o'r Beibl ac ateb cwestiynau arni. Wedi iddynt fynd i'r Ysgol Sul, cawsom gyfle i ystyried tri chymeriad o'r stori sef yr Iesu, Andreas a'r bachgen bach – beth roeddent yn ei roi a sut mae pob un ohonynt yn berthnasol i ni heddiw.

**EIN HOFF STORI O'R BEIBL**
Un Sul bu angen trefnu oedfa ar fyr rybudd ac fe wahoddwyd pob teulu i gyflwyno eu hoff stori o'r Beibl. Cymerwyd rhan gan nifer o'r plant.



**EISTEDDFOD YR URDD**
Llongyfarchiadau i Esme am ei pherfformiad ardderchog ar yr unawd Cerdd Dant o dan 10 oed yn yr Eisteddfod yn Ninbych, ac i Alaw a fu'n cystadlu gydag Ysgol Tryfan.

Gwahoddwyd yr Ysgol Sul i gyfrannu i arddangosfa ym Mhabell y Cyngor Ysgolion Sul yn yr Eisteddfod. Y thema oedd 'Gofalu am gread Duw' a bu'r plant yn brysur yn tynnu llun a lliwio map o'r byd a gosod lluniau ohonynt eu hunain o'i amgylch. Diolch i Claire ac Angela am eu gwaith trefnu.

**BANC BWYD PRESTATYN**
Mae aelodau Bethel wedi bod y arbennig o hael gyda'u rhoddion o fwyd ac arian i'r Banc Bwyd. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu.




**Y CLEIFION**
Anfonwn ein cofion annwyl at ein holl aelodau sydd yn gaeth i'w cartrefi oherwydd salwch. Diolch yn fawr i'n bugail, y Parchedig Brian Huw Jones, am baratoi oedfa iddynt bob wythnos.

**GOHEBYDD .** GWENDA HUMPHRIES

## Tabernacl, Llanfyllin

**CROESO ADRE**
Rydym yn hynod falch fod Robin Hughes wedi dod adre o'r ysbyty ac yn teimlo'n llawer gwell. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Robin a Mona ar ddathlu pen-blwydd priodas saffir glas, sef 65 o flynyddoedd. Priodwyd y ddau yn Nhrefor. Cawsant ddathlu gyda Dylan a Mari, Osian a Clare a Siôn, un o'u hwyrion. Diwrnod i'w gofio i'r cwpwl arbennig yma sydd wedi bod yn rhan mor weithgar o gymdeithas y capeli a phob gweithgaredd Cymraeg yn y dref.

**PRIODAS**
Ddechrau Mehefin cynhaliwyd priodas Haf Ellis, Talwrn, gyda Harri o Benllyn. Gwasanaethwyd gan y Parchedig G. Richards a'r organydd oedd Mrs Llywela Roberts. Dymuniadau gorau i'r cwpl hapus sydd yn ffermio ym Mhenllyn.

**BEDYDD**
Achlysur hapus arall yn y Tabernacl oedd bedydd mab bychan Bethan (Abernaint, gynt) a Stuart Lewis, sef Owain Gwyn. Pob bendith ar y bychan a'r teulu.

**GWELLHAD**
Dymunwn wellhad buan i Mrs Crystal Evans a Mr Roger Davies, y ddau wedi bod yn yr ysbyty. Cofion at y ddau.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Mrs Winnie Evans sydd wedi cael profedigaeth eto ym marwolaeth ei chwaer yng nghyfraith, sef Mrs Gwyneth Evans, Pendugwm, Llanfihangel.

**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS

## Sant Paul, Aberystwyth

**GWASANAETHAU**
Er bod ein cynulleidfa'n fach erbyn hyn rydym yn llwyddo i gynnal gwasanaethau bob bore Sul. Mae ein dyled yn fawr i'r rhai sy'n arwain ein haddoliad. Mae'r Parchedig Patricia Grudgings yn dod atom yn gyson o Dywyn a'i gŵr Gerald yn cyfoethogi'r addoliad trwy ganu'r organ. O dro i dro mae'r Parchedig Phillip Poynor hefyd yn dod atom o'r gylchdaith Saesneg ac felly hefyd dwy bregethwraig gynorthwyol sef Ann Price a Dionne Sherwood. Rydym yn ddiolchgar iawn iddynt a hefyd i ddwy o'n haelodau sef Delyth Evans a Menna Evans sy'n ein harwain mewn gwasanaethau a baratoir gan y Chwaer Eluned Williams pan nad oes pregethwr ar gael. Hoffem ddweud wrthynt i gyd gymaint yr ydym yn gwerthfawrogi eu hymdrechion i sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn parhau yma.

**DYMUNIADAU DA**
Ym mis Mehefin fe gaeodd cartref preswyl Abermâd a bu'n rhaid i Emily Lloyd Jones symud i gartref arall yn Aberaeron. Mae'n dda gennym adrodd iddi setlo'n dda yn ei chartref newydd. Anfonwn gofion cynnes iawn at Emily gan gofio gyda diolchgarwch yr holl flynyddoedd o wasanaeth a roddwyd ganddi a'i diweddar ŵr Trefor i hen gapel Sant Paul ac i'r Ganolfan bresennol.

**SEREN DELEDU**
Os ydych yn gwylio'r gyfres boblogaidd *Garddio a Mwy* ar S4C mae'n debyg y byddwch wedi gweld Jim Jones yn dangos ei wybodaeth a'i frwdfrydedd. Mae Jim yn aelod ffyddlon o'n cynulleidfa ac yn ffigur pwysig yng nghymuned garddwyr Aberystwyth. Ffilmiwyd ei gyfraniadau i'r rhaglen yn ei randir.

**GOHEBYDD .** LIONEL MADDEN


# O'R LLAN

gan y **Canon Idris Thomas**

**YR ARCHESGOB V Y PATRIARCH**

Wrth i mi ysgrifennu hyn o lith mae'r frwydr farbaraidd ac anwar ar ei hanterth yn Wcráin a dioddefaint y trigolion y tu hwnt i'n hamgyffred. Yng nghanol hyn oll, trof fy sylw at un Archesgob ac un Patriarch – sef yr Archesgob Rowan Williams a'r Patriarch Kirill o Foscow. Daw'r gair patriarch o'r Groeg *patriarkhes*, sydd yn golygu pennaeth ar deulu. Llond dwrn o weithiau y mae'r gair i'w weld yn y Beibl. Fe'i cawn yn ail bennod Llyfr yr Actau, yn araith Pedr ar y Pentecost -"Frodyr, gallaf siarad yn hy wrthych am y patriarch Dafydd"; hefyd yn y seithfed bennod, yn araith Steffan -"Ac i Isaac ganwyd Jacob ac i Jacob y deuddeg patriarch", ynghyd ag ambell le arall. Ond fe ddaeth y gair i'm clyw gyntaf a minnau'n blentyn yn Eglwys fach Dinorwig, wrth i'r gynulleidfa ganu lawer tro emyn Gwilym Hiraethog, "Engyl nef o gylch yr orsedd a'th fawl dydi", lle mae'r ail bennill yn dechrau "Patriarchiaid o un galon a'th fawl dydi".





**VLADIMIR MIKHAILOVICH GUNDAYAEV**

Ond beth am y Patriarch Uniongred Kirill o Foscow a Rwsia?

Ei enw gwreiddiol oedd Vladimir Mikhailovich Gundayaev ac fe'i ganed yn Nhachwedd 1946, yn Leningrad sef St. Petersburg heddiw. Yn 1969 cymerodd yr enw mynachaidd Kirill pan oedd yn yr Athrofa Ddiwinyddol. Ar ôl rhai swyddi o fewn ei Eglwys, etholwyd ef yn Batriarch yn Ionawr 2009. Ef oedd y pennaeth cyntaf i'w ethol ar yr Eglwys Uniongred Rwsiaidd yn dilyn cwymp yr Undeb Sofietaidd. Etifeddodd Eglwys oedd wedi profi diwygiad a chynnydd anferth wedi i anffyddiaeth swyddogol y wladwriaeth ddod i ben. O'r cychwyn mynegodd Kirill ei farn y dylai'r Eglwys chwarae rôl rymus ym mywyd y wlad. Daeth yn ffigwr poblogaidd ac am ddegawd a mwy bu'n cyflwyno ei raglen deledu wythnosol ei hun ar bynciau crefyddol. Roedd wrth ei fodd iddo gael ei ddisgrifio fel moderneiddiwr. Pan ddaeth i'w swydd fel Patriarch, mynegodd ei ddymuniad am ddeialog er mwyn ceisio dod â'r rhwyg hir rhwng yr Eglwys Uniongred Rwsiaidd a'r Eglwys Gatholig i ben. Gwireddwyd yr awydd hwn ym mis Chwefror 2016 pan gafwyd y cyfarfod cyntaf erioed rhwng yr Eglwys Uniongred Rwsiaidd a'r Pab Ffransis.

Erbyn hyn, canu mawl â'i holl fryd i Vladimir Putin y mae'r Patriarch hwn. Mae ganddo ddylanwad aruthrol ynghanol y rhyfel presennol gan gynnig cefnogaeth bersonol gref i'r rhyfel, ynghyd â'r Eglwys Uniongred Rwsiaidd y mae'n bennaeth arni. Ef yn anad neb yw cefnogwr pennaf Putin.

**ROWAN DOUGLAS WILLIAMS**

Un sy'n gyfarwydd iawn i ni wrth gwrs yw'r Cymro Cymraeg hwn a fu'n Archesgob Caergaint rhwng 2002 a 2012. Dyma ŵr hynod ddysgedig mewn llu o feysydd. Mae'n gallu siarad Rwsieg ac yn arbenigwr ar uniongrededd. Yn ddiweddar, a hynny yn ddi-flewyn-ar-dafod, cefnogodd yn gryf yr alwad i ddiarddel yr Eglwys Uniongred Rwsiaidd yn ddi-oed o Gyngor Eglwysi'r Byd. Y rheswm am hynny oedd fod y Patriarch Kirill wedi canmol i'r cymylau luoedd arfog ei wlad am weithredu yn unol â'r Efengyl a dysgeidiaeth Gristnogol wrth ymosod ar Wcráin! Mewn iaith gref, dywed yr Archesgob "bod yn rhaid darllen y Ddeddf Derfysg" o weld yr Eglwys Uniongred Rwsiaidd yn weithredol yn cefnogi rhyfel o ormes ac yn gwrthod condemnio rhai sydd yn mynd yn groes i bob ymddygiad moesol. Os na all yr Eglwys dan sylw ddweud rhywbeth sy'n Gristnogol, yna dylid ailedrych ar ei haelodaeth o Gyngor Eglwysi'r Byd. Aeth Rowan Williams ymlaen i ddatgan fod y syniad bod Wcráin wedi dod yn debyg i gymdeithasau gorllewinol yn gwbl atgas i bobl fel y Patriarch Kirill, ac na ddylai ddefnyddio terminoleg Gristnogol i gyfiawnhau gormes a thrais yn erbyn cenedl Gristnogol gyfagos fel Wcráin. Rhybuddiodd yr Archesgob Rowan y Patriarch ei fod yn atebol i Iesu Grist.

Cofier fod dinasyddion Uniongred Wcráin yn cael eu lladd gan aelodau eraill o'r un praidd crefyddol. Gwarthus a chywilyddus yw cefnogaeth ddi-syfl Kirill i ryfel Putin; gwasanaethu budd y wladwriaeth yn llwyr a wna gan alw goresgyniad Wcráin yn Rhyfel Sanctaidd. Bendithiodd Kirill filwyr Rwsia a oedd yn ymladd yn Wcráin a galwodd ar i blant ysgol yn Rwsia ddysgu oddi wrth yr holl arwyr (sef holl filwyr y wlad) a oedd yn aberthu eu bywydau a'u hiechyd i amddiffyn eu mamwlad.

Geiriau di-flewyn-ar-dafod a gafwyd hefyd gan yr Archesgob Sviatoslav Shevchuk o Eglwys Gatholig Roegaidd Wcráin. "Wrth i'r Patriarch Kirill ddefnyddio'r Efengyl Gristnogol i bwrpas propaganda gwrthun," meddai "daw hyn ag ef yn agos iawn at athrawiaeth y wladwriaeth Islamaidd gan ei fod yn defnyddio'r un fath o ddadleuon ond wedi eu gwisgo â mantell Gristnogol." Boed i ni i gyd weddïo yng ngeiriau emyn Roger Jones:-

Boed heddychol rin dy gariad
heddiw'n falm ar glwyfau'n hoes,
doed y ddaear fawr i gysgod
buddugoliaeth dwyfol loes:
ar y llawr, O torred gwawr
dedwydd ddydd y cymod mawr.



# Wela i chi yn Steddfod

gan **Glyn Tomos**

'Ti'n siŵr o gael dy ddal os ti'n dweud celwydd. Daw dim daioni i bobl sydd ddim yn dweud y gwir'.

Dyna fyddai Mam yn ei ddweud wrthym yn blant. Daeth y geiriau hyn yn ôl i mi wrth wylio'r ddrama fawr wleidyddol yn Llundain yn ddiweddar. Does dim syndod bod pobl wedi hen syrffedu ar wleidyddiaeth wrth weld sut mae rhai o'n harweinwyr gwleidyddol yn ymddwyn tua San Steffan. Beth bynnag fo eich lliw gwleidyddol, mae disgwyl bod ein harweinwyr gwleidyddol, fel pob proffesiwn arall, yn cadw at y safonau uchaf posib gan ymddwyn yn onest a chyfrifol yn hytrach na chamddefnyddio eu pŵer a'u cyfrifoldebau er eu budd a'u lles eu hunain.

I roi halen yn y briw mae hyn yn digwydd mewn cyfnod o gyni aruthrol gyda chynnydd syfrdanol ym mhrisiau bwyd a thanwydd sydd yn golygu bod miloedd o deuluoedd yn ei chael yn anodd i gael un pryd o fwyd ar y bwrdd bob dydd. Onid dyma'r hyn ddylai ein gwleidyddion ganolbwyntio arno?

Peryg arall wrth wylio y rhialtwch yn Llundain yw meddwl bod pob gwleidydd yn ymddwyn yr un fath. 'Tebyg at eu tebyg' ydy'r ymateb mae rhywun yn ei glywed yn aml ar y stryd mewn ymateb i'r hyn sydd yn digwydd. Paentio pawb gyda'r un brws. Wrth gwrs fe wyddom fod gennym wleidyddion arbennig o flaengar a gweithgar, sydd yn gweithio tu hwnt o galed i wasanaethu eu hetholwyr a thynnu sylw at yr anghyfiawnder sydd yn bodoli yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Tra bydd yr ornest hynod fudr, yn ôl rhai sylwebyddion, am yr allwedd i 10 Stryd Downing yn llenwi ein sgrins a'n papurau newydd, mae'n dda bod gennym ni fel Cymry ddathliad diwylliannol i edrych ymlaen ato yn Nhregaron fis Awst. Mae hir ddisgwyl wedi bod am weld y Brifwyl yn ei hôl a chael mwynhau y gorau o'n diwylliant.

Onid yw hi'n braf cael y cyfle i eistedd nôl ac ymlacio yng nghwmni cyd-Gymry ac ymwelwyr mewn awyrgylch braf a hamddenol? Mi fydd hyn yn bwysicach nag erioed eleni oherwydd ein bod wedi ein hamddifadu o'r profiadau unigryw hyn ers dros ddwy flynedd bellach.

Er ein bod yn gallu bod yn gwynfanllyd a gweld bai yn aml, a hynny am resymau digon dealladwy ar adegau, testun rhyfeddod ydy'r gwaith mawr sydd yn digwydd ar hyd a lled Cymru i hyrwyddo ein hiaith a diwylliant. Mae gennym unigolion a chymdeithasau sydd yn rhoi oriau o waith, a hynny yn gwbl wirfoddol, heb sylw yn y byd, ac yn aml o dan amgylchiadau anodd i warchod ein hetifeddiaeth.

Wrth i nifer ohonom anelu ein golygon tuag at Dregaron, manteisiwch ar y cyfle i rannu a chyfnewid profiadau a syniadau gyda phobl o bob cwr o Gymru a chadwch yn gadarnhaol ac yn obeithiol am y dyfodol.

# Taith Drwy Hanes

Ar 31 Mai ym mhabell yr Eglwysi yn Eisteddfod yr Urdd, Dinbych lansiwyd adnodd newydd Rhwydwaith Dysgu Cymru sef 'Taith Drwy Hanes – 2000 o Flynyddoedd o Ysbrydolrwydd Cristnogol yng Nghymru'. Mae ar ffurf cylchgrawn ac yn ein tywys trwy wahanol gyfnodau yn hanes Cristnogaeth yng Nghymru gan roi sylw arbennig i ysbrydolrwydd Cristnogol ar hyd yr oesau. Mae'n cynnwys awgrymiadau am weithgareddau addas i bob oed a syniadau ar gyfer ymweld â mannau sy'n gysylltiedig â gwahanol gyfnodau yn ein hanes. Y gobaith yw y bydd yn addas i deuluoedd ei ddefnyddio gartref ac ar gyfer holl deulu'r eglwys. Yn y lansiad cafwyd cyfle i dynnu sylw at rai o nodweddion yr adnodd trwy amrywiol weithgareddau rhyngweithiol yn ymgysylltu â'r gwahanol oesau a'r themâu yn codi ohonynt.



Rydym yn ddiolchgar i'r Parchedigion Jennie Hurd, Manon Ceridwen James a Christine Browne am y cydweithio hapus wrth gynhyrchu'r deunydd ac i Ffion Rowlinson am y gwaith cyfieithu. Dyma'r trydydd llyfryn a gynhyrchwyd gan y Rhwydwaith Dysgu a gallwch weld a lawrlwytho'r tri ar dudalen Cymru / Wales ar wefan y Rhwydwaith Dysgu. Am gopïau caled, cysylltwch â Delyth ar daviesd@methodistchurch.org.uk neu drwy ffonio 07799 902576.

# YR YMWELYDD

gan **Myfanwy Povey**

Mae rhai profiadau a gawn yn ystod ein bywydau yn para hefo ni am oes. Pethe digon dibwys ar y pryd ond mewn amser mae rhywun yn gweld eu gwerth.

Ar hyn o bryd rwyf ar drothwy aduniad hefo'r nyrsys ddaru mi hyfforddi hefo nhw yn y chwedegau yn y Royal London Hospital, Whitechapel E1. Ie, rydych yn iawn, yr hospitol honno oedd yn y rhaglen enwog 'Call The Midwife' gyda'r lleianod anhygoel y sgwennodd Jennifer Worth mor rymus amdanynt. Cyn ichi ofyn – DO fe fûm i'n gweithio hefo nhw hefyd! Yn 1965 y dechreuais yn 'Y London' ar gwrs S.R.N. a gwneud ffrindiau oes. Yn 1968 bûm yn gweithio fel Nyrs Ysgol a Chlinig yn Bow a'r enwog 'Isle Of Dogs' lle roedd y lleianod erbyn hynny yn rhedeg clinig. Roedd Jennifer Worth yn yr East End yn y pumdegau, ond doedd fawr ddim wedi newid mewn deng mlynedd erbyn fy amser i. Roedd llawer o ddiweithdra a thlodi gyda gwaith y docwyr ar drai, yn ogystal â phryder oherwydd y gangiau a llawer o ladd a llofruddio, dwyn a thwyllo. Roedd ôl bomiau'r Rhyfel i'w weld o hyn. Er hynny roedd y bobol yn gyfeillgar, yn ofalus iawn o'u teuluoedd ac yn meddu ar ffraethineb unigryw.

Bydd llawer o hel atgofion pan ddown ni at ein gilydd. Bydd rhai yn gofyn: oedd peth a pheth yn wir ynteu breuddwydio wnes i? Hel atgofion am bobol oedd yn ddigon cyffredin drigain mlynedd yn ôl ond a ddaeth yn fyd-enwog. Yna dyna rai fel y brodyr Kray a'r gang Richardson, nad oedd neb eisiau eu hadnabod nhw... do, fe ddeuthum ar eu traws nhw hefyd! Wedyn dyna Bob Dylan, Lord Robert Winston, Judith Durram o'r Seekers, Christeen Keeler – i ollwng dim ond ychydig o enwau! Ond cyfarfûm ag un mwy arbennig na'r rhain i gyd.


Dyma fi yn nyrs fach ugain oed, wedi bod yn Llundain ers ychydig fisoedd ac ar fy ail ward, sef ward y dynion. Roeddwn yn edrych ar ôl pen pella'r ward. Yn y pellter wrth y fynedfa gwelwn MATRON – mi fuasech yn ei hadnabod hi tase hi filltir i ffwrdd! Roedd yn martsio fel pe bai yn dal yn y fyddin, lle buodd mewn rheng uchel yn ystod y Rhyfel. Ac roedd yn anelu amdana i! Yn ei dilyn yr oedd dyn tal, tal. Roeddwn yn crynu: be dwi wedi ei wneud o'i le?

"I have a visitor for you, Nurse Jones," meddai Matron. "The Reverend John Roberts has come to see you."

Wel oedd, roedd gan yr ymwelydd goler gron. Ac oeddwn, roeddwn wedi ei weld o'r blaen – yn pregethu yng nghapel bach Cynllwyd, Llanuwchllyn, capel sydd, gyda llaw, yn dal ar agor.

"Go to the Office with him," meddai wedyn. "I will look after your patients." Roedd yn drosedd fawr gadael eich cleifion ar eu pennau eu hunain.

Does gen i fawr o gof am y sgwrs, ond cofiaf ddweud wrtho fy mod yn nyrsio ar y pryd ŵr ifanc oedd wedi graddio o Gaergrawnt, a'i fod yn anffyddiwr ac yn cyd fyw hefo dynes dros ddeugain oed.




Doeddwn i rioed wedi cael profiadau fel hyn o'r blaen – doedd yne yr un anffyddiwr yn Llanuwchllyn! Roedd yn marw, ei afu wedi ei heintio. Dim triniaeth yn y chwedegau. Deuai ei bartner â blodyn tegeirian iddo bob dydd a hyd heddiw cysylltaf y blodau hyn â marwolaeth.

Gwrandawodd y Parch John Roberts arnaf, holodd am fy nheulu, a gweddïodd drosof a'r holl gleifion ac yn arbennig Chris (nid ei enw iawn). Wedi dod i Lundain i edrych am ei ferched roedd o, Elizabeth yn Almoner yn y Royal London, a bu hithau'n hynod dda wrthyf gan fy ngwadd i ginio Sul. Hefo hi y cefais y profiad o fynychu gwasanaeth y Crynwyr yn Walthemstaw gyntaf. Tawelwch gwefreiddiol.

Roedd gweddill y staff yn fy mhen yn holi am yr ymwelwr. Digwyddiad hollol anghyffredin. Sylweddolaf fod y byd wedi newid hefo'r ffôn symudol a'r dechnoleg fodern ond faint o weinidogion heddiw fuase'n mynd i'r drafferth i fynd at Matron a chwilio amdana i? Roedd John Roberts wedi gadael y Bala ers 1962, eto roedd yn fy nghofio. Mae'n adnabyddus drwy Gymru fel John Roberts Llanfwrog ac mae ei emynau yn *Caneuon Ffydd* hefo'r gorau. Rwyf yn crio bob tro wrth eu canu oherwydd fy mod yn cofio amdano yn dod i weld nyrs fach o Gynllwyd ar 'duty'. Braint amhrisiadwy yr wyf yn diolch amdani.

# "Dy Ffydd Sydd Wedi Dy Iacháu Di"

gan y **Parchedig Eirlys Gruffydd Evans**

Nid yw *Burquin* yn enw cyfarwydd. Mae'r gair yn disgrifio beth sydd yno – tir tywodlyd ond yn llawn o gerrig callestr caled. Nid oes sôn am y lle yn y Testament Newydd, ac eto dyma lle digwyddodd un o wyrthiau mwyaf adnabyddus a syfrdanol Iesu, sef iacháu deg o ddynion gwahanglwyfus. Heddiw mae meini bywiol yn tystio i realiti'r wyrth ac i'r traddodiad hir a dilys sy'n cysylltu'r lle â'r hanes a groniclir yn Luc 17:11-19.

Yng ngwanwyn 2012 cafodd y Parchedig Eleri Edwards a minnau'r fraint o ymweld ag eglwys Sant Siôr yn Burquin. Dywed Luc fod Iesu ar ei ffordd i Jerwsalem ac yn mynd trwy'r wlad rhwng Samaria a Galilea. Heddiw mae Burquin ar y lan orllewinol heb fod ymhell o dref Jenin. Tref fechan ydyw, un dlawd a'r tai yn llwm a'r ffyrdd yn dyllog. Mwslemiaid yw mwyafrif y boblogaeth ond mae nifer o deuluoedd Cristnogol yn byw yno a nhw sy'n gwarchod yr eglwys. Syndod oedd deall mai dyma'r eglwys hynaf yn y wlad ac wedi ei sefydlu cyn Eglwys y Geni ym Methlehem ac Eglwys y Beddrod Sanctaidd yn Jerwsalem. Helena, Mam yr Ymerawdwr Cystennin, oedd wedi gorchymyn adeiladu'r eglwys gyntaf ar y safle yn y bedwaredd ganrif. Oddi mewn i'r adeilad mae un rhan yn eglwys draddodiadol gyda seddau i eistedd yn wynebu'r allor a darluniau lliwgar ar y muriau. Ond mae rhan hynaf yr eglwys wedi ei hadeiladu dros ogof lle mae bedyddfaen hynafol sy'n perthyn i ddyddiau cynnar yr eglwys. Yn ôl traddodiad, yr ogof oedd cartref y gwahangleifion a byddai trigolion y pentref yn gadael bwyd iddynt ar waelod y bryn lle saif yr eglwys heddiw. Gerllaw'r eglwys mae ffynnon o ddŵr.

Roedd y dynion wedi eu hynysu oddi wrth eu teuluoedd ond eu hangen cyffredin wedi dod â nhw at ei gilydd – yn Iddewon ac un Samariad. Gwyddom beth yw'r profiad o gael ein hynysu ac o orfod siarad â'n cymdogion o bellter diogel. Does ryfedd i'r gwahangleifion godi eu lleisiau o hirbell a gofyn i Iesu am drugaredd. Roedd y sôn amdano wedi cyrraedd atyn nhw, hyd yn oed. Ymateb Iesu oedd eu hanfon at yr offeiriad oherwydd dim ond hwnnw fedrai ddweud os oeddynt yn lân o'r clwy. Wrth ufuddhau iddo daeth iachâd iddynt. Gwyddom ninnau beth yw gorfod gwrando ar orchmynion er mwyn cadw'n iach. Daeth un yn ôl i ddiolch am ei ryddhau, a'r Samariad oedd hwnnw. Mae'r Iesu yn dod i'n cyfarfod mewn mannau annisgwyl. Mae yn derbyn ein diolch a'n gwerthfawrogiad. Yn yr hanes yma mae duwdod a dynoldeb Iesu i'w gweld yn glir – y dwyfol sy'n iacháu a'r dynol sy'n gwerthfawrogi'r diolch. Gwyddom, wedi cyfnod anodd iawn, bod angen i ni ddiolch am yr hyn sy'n rhoi cryfder i ni a chredu yng ngrym cariad Crist. Yna gallwn ddweud gyda sicrwydd fod ein ffydd **yn** ein hiacháu heddiw.





# TUDALEN Y PLANT





## Mynd i Jerwsalem

Byddai rhieni Iesu yn arfer mynd i Jerwsalem i ddathlu Gŵyl y Pasg bob blwyddyn, a phan oedd Iesu yn ddeuddeg oed aethon nhw yno i'r Ŵyl fel arfer. Pan oedd yr Ŵyl drosodd dyma'i rieni yn troi am adre, heb sylweddoli fod Iesu wedi aros yn Jerwsalem. Roedden nhw wedi teithio drwy'r dydd gan gymryd yn ganiataol ei fod gyda'i ffrindiau yn rhywle. Dyma nhw'n mynd ati i edrych amdano ymhlith eu ffrindiau a'u perthnasau, ond methu dod o hyd iddo. Felly dyma nhw'n mynd yn ôl i Jerwsalem i edrych amdano. Roedd hi'r trydydd diwrnod cyn iddyn nhw ddod o hyd iddo! Roedd wedi bod yn y deml, yn eistedd gyda'r athrawon ac yn gwrando arnyn nhw ac yn gofyn cwestiynau. Roedd pawb welodd e yn rhyfeddu gymaint roedd yn ei ddeall. Cafodd ei rieni y fath sioc pan ddaethon nhw o hyd iddo, a dyma'i fam yn gofyn iddo, "Machgen i, pam wyt ti wedi gwneud hyn i ni? Mae dy dad a fi wedi bod yn poeni'n ofnadwy ac yn chwilio ym mhobman amdanat ti." Gofynnodd Iesu iddyn nhw, "Pam roedd rhaid i chi chwilio? Wnaethoch chi ddim meddwl y byddwn i'n siŵr o fod yn nhŷ fy Nhad?" Ond doedd ei rieni ddim wir yn deall beth roedd yn ei olygu. Felly aeth Iesu yn ôl i Nasareth gyda nhw a bu'n ufudd iddyn nhw. Roedd Mair yn cofio pob manylyn o beth ddigwyddodd, a beth gafodd ei ddweud. Tyfodd Iesu'n fachgen doeth a chryf. Roedd ffafr Duw arno, ac roedd pobl hefyd yn hoff iawn ohono.
Luc 2:41-52 beibl.net

## Chwilair

Nasareth
Mair
Ffrindiau
Iesu
Pasg
Jerwsalem
Deuddeg

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| J | C | M | DD | L | A | W | S | J |
| TH | E | R | A | S | A | N | R | FF |
| D | I | R | J | N | T | I | J | R |
| A | P | TH | W | R | Y | W | D | I |
| G | M | O | M | S | P | U | E | N |
| FF | I | S | CH | E | A | A | U | TH |
| S | A | E | P | TH | S | L | DD | E |
| N | R | FF | S | M | G | A | E | S |
| A | D | E | A | U | H | P | G | M |
| U | W | I | DD | E | I | M | O | L |
| FF | R | I | N | D | I | A | U | J |

